

# Diogelu Data mewn Eglwysi Annibynnol

## Canllawiau ac Ymarfer Da

### **Rhagymadrodd**

Ar 25 Mai 2018, bydd cyfraith newydd yn dod yn weithredol fydd yn rheoli'r defnydd a wneir o ddata (neu wybodaeth) o fewn eglwysi Cristnogol a mudiadau eraill.

Gofynnwyd i Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ddarparu canllawiau ar gyfer yr eglwysi Annibynnol ac er ei bod yn bosibl y bydd canllawiau eglwysi ac enwadau eraill o dro i dro yn ymddangos yn wahanol, dyma'r canllawiau a'r ymarfer da y mae'r Undeb, yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol, yn annog yr eglwysi Annibynnol i'w mabwysiadu.

Yr egwyddor sylfaenol o fewn y gyfraith yw nad oes hawl gan sefydliadau, sy'n cynnwys eglwysi, i rannu gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n perthyn iddynt. Mae'r wybodaeth i'w chadw a'i diogelu ymhob ffordd bosibl ac i'w defnyddio yn unig i ddibenion gweinyddu'r elusen (yr eglwys) yn effeithiol.

### **Adroddiad Ariannol yr eglwys**

Mae'n ofynnol i bob eglwys gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n dangos ei sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn. Ychwanegir at hynny fanylion am weithgarwch yr eglwys yn ystod yr un flwyddyn. Bydd yr adroddiad yn cael ei archwilio gan unigolion sy'n gymwys i wneud y gwaith yn drwyadl ac yn wrthrychol.

Yn y gorffennol bu'n arferiad gan nifer o eglwysi i gynnwys enwau a chyfeiriadau eu haelodau ynghyd â'u cyfraniadau yn ystod y flwyddyn. Mewn rhai achosion, ychwanegwyd rhifau teleffon a chyfeiriadau e-bost at yr wybodaeth honno.

O 25 Mai 2018, ni chaniateir cyhoeddi'r wybodaeth hon am yr aelodau a'u cyfraniadau. Bydd yn rhaid i'r Trysorydd a/neu'r Pwyllgor Cyllid gadw'r wybodaeth i ddibenion gweinyddu'r elusen yn effeithiol, a bydd yn rhaid i'r sawl sy'n archwilio'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn weld yr holl fanylion. Fodd bynnag, ni fydd gan neb arall hawl i weld beth yw cyfraniad unrhyw aelod. Ni chaniateir chwaith i fanylion rhoddion na chymynroddion gael eu cyhoeddi.

### **Cau'r cyfrifon**

Tua deufis cyn diwedd y flwyddyn ariannol, awgrymwn fod y Trysorydd a/neu'r Pwyllgor Cyllid yn darparu nodyn i'w rannu i bob aelod o'r eglwys yn nodi cyfanswm eu cyfraniadau hyd y diwrnod hwnnw ac yn eu hysbysu o ddyddiad cau llyfrau'r eglwys am y flwyddyn honno. Dylai'r nodyn gael ei roi mewn amlen a'r cyfan eu rhannu i'r unigolion perthnasol ar y Sul neu trwy unrhyw fodd arall o ddewis y swyddogion.

Bydd yr aelodau wedyn yn gallu cwblhau eu cyfraniadau am y flwyddyn mewn da bryd.

Pan fydd yr Adroddiad Blynyddol yn ymddangos, awgrymwn ei fod yn cynnwys braslun o weithgarwch yr eglwys yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, rhyw fath o ddatganiad o'r bwriadau yn ystod y flwyddyn sy'n dod (neu ddatganiad cenhadol cryno), ynghyd â mantolen i ddangos yr incwm a'r gwariant.

Pwysleisiwn yr angen i'r fantolen, ynghyd â'r manylion sydd y tu cefn iddi, gael eu harchwilio'n drylwyr yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

### **Bugeilio**

I ddibenion bugeilio'r gynulleidfa bydd yn dderbyniol i'r gweinidog, y diaconiaid ac aelodau unrhyw Bwyllgor Bugeiliol fydd wedi eu gwirio dderbyn rhestr o enwau, cyfeiriadau a rhifau teleffon yr aelodau. Ni ddylent hwy yn eu tro, ar unrhyw gyfrif, rannu'r wybodaeth hon â neb arall.

### **E-bost a'r cyfryngau cymdeithasol**

Os bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu trwy e-bost neu'r cyfryngau cymdeithasol, yna bydd yn rhaid i bob aelod roi eu cyfeiriad eu hunain i'r sawl sy'n rhannu'r wybodaeth. Dylid cadw'r caniatâd a roddir i anfon y negeseuon mewn ffeil, dan glo. Bydd y rhestr hon o bobl fydd wedi rhoi eu caniatâd yn dod dan yr un rheolau diogelu data, a dylai pob cylchlythyr e-bost gael ei anfon trwy gopiâu cudd (BCC) yn hytrach na chopïau gweladwy (fel gyda CC).

### **Ymholiadau**

Os digwydd i Drysorydd neu unrhyw swyddog eglwysig arall derbyn ymholiad am enw, cyfeiriad, rhif teleffon neu gyfeiriad e-bost unrhyw un sy'n aelod o'r eglwys, bydd yn rhaid gwrthod y cais. Wrth reswm, gellid cysylltu yn uniongyrchol â gwrthrych yr ymholiad a gofyn am ganiatâd i roi'r wybodaeth.

### **Gweinidogaeth**

Mae'r ddeddf newydd yn fodd i'n hatgoffa fod dal gwybodaeth am sefyllfa bersonol pobl bob amser yn gyfrifoldeb sydd i'w gymryd o ddifrif. Mae hyn yn wir nid yn unig am eu cyfeiriadau a'u rhifau teleffon ond hefyd am eu hamgylchiadau. Atgoffwn bawb sy'n gwneud unrhyw waith bugeiliol fod yr wybodaeth a feddant am aelodau'r eglwys, neu eraill, yn gwbl gyfrinachol. Mae unrhyw gofnodion o weithgarwch bugeiliol hefyd i'w hystyried fel gwybodaeth neu ddata sensitif sydd i'w cadw dan glo.

### **Cylchlythyr, taflen neu gylchgrawn yr eglwys**

Dylid sefydlu'r egwyddor mai at ddefnydd yr aelodau yn unig y mae cylchgrawn neu gylchlythyr yr eglwys. Ni ddylent gael ei rhannu'n gyhoeddus. Pan fo gwybodaeth yn cael ei chynnwys am aelodau unigol neu deuluoedd, ni ddylid cynnwys cyfeiriadau eu cartrefi na'u rhifau teleffon heb eu caniatâd. Dylid cadw popeth mor gyffredinol ac amhenodol ag sy'n bosibl.

### **Blwyddiadur yr Undeb**

Caniateir i'r Undeb gyhoeddi'r Blwyddiadur fel arfer ar y ddealltwriaeth mai ar gyfer defnydd yr Undeb ei hunan, y cyfundebau, y gweinidogion, swyddogion ac aelodau eglwysi y cyhoeddir ef. Bydd yn ein galluogi 'i weinyddu'r elusen yn effeithiol'. Ni fydd yn cael ei werthu mewn siopau, dim ond yn uniongyrchol o Dŷ John Penri. Ni ddylai neb brynu copi i'w roi i unrhyw un y tu allan i gylch ein heglwysi, ac ni ddylai unrhyw aelod eglwysig ddefnyddio'r wybodaeth sydd ynddo i unrhyw ddiben y tu allan i'w eglwys ei hun.

### **Cwestiynau**

Os bydd unrhyw gwestiwn pellach ynglŷn â'r materion uchod, gwahoddwn chwi i gysylltu â Thŷ John Penri trwy ffonio 01792 795888.